**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**176 – Rheoliadau Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Gosodwyd yn Senedd y DU: 08 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh. |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh. |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh. |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 46 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)31 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh. |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20 Hydref 2020 |

**Cefndir**
Cynigir bod y Rheoliadau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

**Crynodeb**
Nod yr OS yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n gysylltiedig â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn diwygio Deddf Ddehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli

cyfeiriadau at "gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu” Mae'r OS hefyd yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylai cyfeiriadau presennol at offerynnau'r UE sy'n rhan o gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu, a chyfeiriadau annewidiadwy presennol at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE, gael eu darllen ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i gael gwared ar ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n gymwys ac mae’n darparu glòs cyffredinol i sicrhau bod y dehongliad cywir o offeryn yr UE yn gymwys.

Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â’r UE) 2019 (Rheoliadau 2019) a diddymiadau technegol i ddarpariaethau segur o fewn Deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Ym marn y Cynghorwyr Cyfreithiol, nid oes unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o’r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**
Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn ar 14 Hydref 2020.

Disgwylir i gynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn dydd Mawrth 3 Tachwedd 2020.